| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **16 GORFFENNAF 2015** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO –<br>PANT YR ARDD, TREGARTH, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

**MANYLION Y CAIS**

Derbyniwyd cais am drwydded eiddo ar gyfer Pant yr Ardd, Tregarth, Bangor ar 22 Mai 2015 oddi wrth yr ymgeisydd Mr Kenneth Richard Williams. Gwelir copi o'r ffurflen gais a chynllun yr eiddo yn Atodiad 1.

Mae'r ymgeisydd yn egluro mai cais ar gyfer tŷ tafarn gyda gardd gwrw yw hwn, fodd bynnag, nid yw cynllun yr eiddo a dderbyniwyd gyda'r ffurflen gais yn cynnwys y lleoliad yr ardd gwrw. Gwelir crynodeb o'r gweithgareddau trwyddedadwy arfaethedig ac oriau agor yr eiddo yn hysbyseb y cais yn Atodiad 2.

Mae'r camau mae'r ymgeisydd yn bwriadu dilyn i hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu wedi eu rhestri yn adran M o'r ffurflen gais.

**GWYBODAETH GEFNDIROL**

Roedd trwydded eiddo yn bodoli ar gyfer yr eiddo yma ers 24 Tachwedd 2005 ond fe gafodd ei ildio ar 20 Mai 2015. Gwelir crynodeb o gyn oriau agor yr eiddo a'r gweithgareddau trwyddedadwy yn Atodiad 3.

**SYLWADAU**

| **Ymateb** | **Sylwadau** |
|---|---|
| Gwasanaeth Iechyd Amgylchedd | Gwrthwynebiad – amodau swn |
| Awdurdod Trwyddedu | Gwrthwynebiad – amodau CCTV |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim sylwadau |
| Gwasanaeth Tan & Achub | Dim sylwadau |
| Partion eraill a diddordeb | 5 Gwrthwynebiad |

Yn dilyn trafodaethau gyda'r gwasanaeth Iechyd Amgylchedd a'r Awdurdod Trwyddedu, y mae'r ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau sŵn a CCTV.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth y 5 parti eraill a diddordeb yn gwrthwynebu'r cais. Mae eu gwrthwynebiadau yn seiliedig ar yr amcanion trwyddedu o Atal Trosedd ac Anhrefn ac Atal Niwsans Cyhoeddus. Prif bryderon y preswylwyr yw cynnydd mewn sŵn, anhrefn a sbwriel pe bai'r cais yn llwyddiannus. Maen nhw hefyd yn bryderus os fydd gweithgareddau trwyddedadwy yn cael eu cynnal yn yr ardd gwrw.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r is-bwyllgor ystyried y cais am drwydded eiddo yn unol ag amcanion Deddf Trwyddedu 2003.

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 / Appendix 1 | Ffurflen gais a cynllun yr eiddo<br>Application form and premises plan |
| Atodiad 2 / Appendix 2 | Hysbyseb o gais<br>Notice of application |
| Atodiad 3 / Appendix 3 | Manylion cyn trwydded Pant yr Ardd<br>Pant yr Ardd’s previous licence details |